

## CREU DARN O THEATR GORFFOROL MEWN SAFLE PENODOL

### DAETH DYDD TARO

#### Cyflwyniad

Mae *Daeth Dydd Taro* yn seiliedig ar hanes Lewis Valentine, D.J. Williams a Saunders Lewis yn llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth yn 1936. Roedd y tri ohonynt yn heddychwyr.

Roedd Lewis Valentine yn weinidog yng nghapel y Tabernacl yn Llandudno, ac fe benderfynodd Eddie Ladd a Marc Rees ddefnyddio'r Tabernacl fel eu gofod ar gyfer perfformio eu dehongliad theatr gorfforol hwythau o'r hanes.

Ceir dau glip sy'n ymwneud â'r digwyddiad:

- (i) *Daeth Dydd Taro y broses* - Eddie Ladd a Marc Rees yn trafod y broses o greu'r gwaith.
- (ii) *Daeth Dydd Taro y perfformiad* - dehongliad corfforol o'r digwyddiad ar ôl tri diwrnod o ymarfer.

Beth sydd yn eich taro yn ystod y sioe yw sut mae'r lleoliad wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd anghonfensiynol? Y lleoliad yw'r capel lle bu Lewis Valentine yn weinidog, sef, Capel y Tabernacl, Llandudno.

Mae'n bosib dadlau bod pob pregethwr yn actor a'r pulpud yw ei lwyfan. Mae unrhyw ddefod yn ei hanfod yn theatrig. Fe ddaeth y theatr fwyaf cyntefig o ddefod grefyddol. O ddefod y datblygodd y theatr Roegaid. Roedd y corws yn canu defod i'r duwiau. Yna penderfynwyd cael unawdydd a'r corws yn ymateb. O weithred grefyddol fe ddatblygodd y theatr fel rydym ni yn ei hadnabod heddiw.



Yr hyn sydd yn ddiddorol yw bod nifer o grefyddau yn gwrthwynebu actio er bod y theatr wedi dechrau mewn gweithred grefyddol. Credai nifer bod actio yn beth drwg gan nad oeddech chi ynoch chi eich hun ac yn dynwared rhywun arall.

Yn ystod dyddiau cynnar yr Eglwys Gatholig roedd dramâu Miragl a moesol yn cael eu defnyddio i addysgu'r werin. Dysgu am storiâu o'r Beibl a hefyd moeswersi ynglŷn â pheryglon pechod.

Dros y canrifoedd mae nifer o grwpiau wedi credu bod y theatr yn anfoesol ac wedi cau theatrau ar y cynnig cyntaf. Caewyd bob theatr o 1642 i 1665. Fe ddaeth y diwygiad yng Nghymru ar ddechrau'r 20fed ganrif a rhoi terfyn ar ddramâu, dawnsio a chanu gwerin.

Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio adeiladau arbennig i greu dramâu neu gynyrchiadau. Mae'r lleoliad felly yn bwysig ac yn llywio'r digwydd e.e. cynhyrchiad 'Macbeth' gan Theatr Genedlaethol Cymru yng Nghastell Caerffili.

Mae'r ddau berfformiwr wedi creu darn sydd yn cyfleu cymysgwch Lewis Valentine drwy ddangos y gwrthdrawiad rhwng crefydd a'r weithred o losgi'r Ysgol fomio. Symbol o hyn yw'r can petrol. Y geiriau sy'n cael eu llefaru bob hyn a hyn yw rhai Lewis Valentine. Y capel wedyn yw'r elfen grefyddol .

Mae'r capel yn adeilad cryf a chadarn . Mae hefyd yn foel iawn – roedd angen canolbwyntio ar y bregeth!



### **Llosgi'r Ysgol Fomio**

Ym mis Medi 1936 rhoddodd tri ymgyrchydd iaith Ysgol Fomio ym Mhenyberth ger Pwllheli ar dân mewn safiad sy'n cael ei gofio hyd heddiw.

Y tri oedd y Parch Lewis Valentine, Saunders Lewis a D.J Williams.

Roedd y safle yn cael ei ddatblygu fel rhan o baratodau Prydain ar gyfer yr Ail Ryfel Byd.

Fe gafodd y tri eu carcharu am naw mis ond fe'u croesawyd yn ôl i Gymru gan dorf o 15,000 o bobl.

### **Perfformiad 'Daeth Dydd Taro'**

Dyma drefn y perfformiad sy'n dangos sut cafodd y gwaith ei fapio a sut mae'r unedau yn cysylltu gyda'i gilydd i greu'r perfformiad terfynol.

### **Trefn y Perfformiad**

Fe allwch chi ddilyn yr un math o drefn wrth i chi roi gwaith dyfeisio at ei gilydd. Penderfynwch ar y daith gorfforol yr ydych chi am ei greu yn y gofod, mapiwch y daith er mwyn cael strwythur pendant i'r gwaith. Sylwch ar y strwythur amlwg sydd i waith Eddie a Marc er mwyn i 'Daeth Dydd Taro' lifo i greu'r perfformiad terfynol.

- Marc yn cerdded i fyny i'r oriel ac yn darllen y llythyr ysgrifennodd Lewis Valentine at ei dad
- Eddie yn codi yn araf gyda'r 'jerry can'
- Y ddau yn camu dros y seddau, eistedd, troi i edrych ar y 'jerry can'
- Symud gyda'i gilydd dros y seddau nes cyrraedd y cloc. Marc yn rhedeg lawr y staer i waelod y Capel o dan y cloc. Gollwng y can o lawr Eddie i ddwylo Marc

- Eddie yn rhedeg lawr y staer
- Marc i'r sedd fawr a thynnu un llyfr allan o bentwr o lyfrau ar y pulpud, y llyfrau i gyd yn disgyn o'i flaen
- Eddie yn cario Beiblau mawr bob yn un i Marc. Marc yn eu gosod fesul un ar y pedalau ar waelod yr organ er mwyn cael sain 'drôn' - h.y. un nodyn hir ar gyfer y rhan nesaf o'r gwaith
- Y ddau yn cerdded lawr a Marc yn eistedd yng nghefn y Capel
- Eddie yn nôl gwydrau Cymun a chynnig gwin i Marc. Marc yn cymryd y gwin ac yn ei yfed ac yna yn gweddio. Eddie yn rhoi gwydrau mewn seddau eraill yn y capel
- Marc yn rhoi Beibl ar ei war - cefn ei wddw. Eddie yn gwneud yr un modd
- Y ddau yn cerdded yn araf gyda'r Beibl ar eu gwar o un sedd i'r llall
- Tynnu'r Beiblau a dechrau cerdded dros y seddau
- Eddie yn eistedd mewn sedd a chymryd y gwin a gweddio
- Marc yn codi'r 'jerry can' a'i ddal
- Eddie yn symud ar hyd y seddau fel petai'n pendroni ac mewn penbleth
- Marc yn mynd at Eddie a rhoi'r gwydr Cymun at ei cheg ac Eddie yn ei yfed
- Eddie a Marc yn gwneud symudiadau tynnu a gwthio gyda'u breichiau ac yn symud ar hyd y seddau mewn undod
- Marc yn cerdded yn gyflym ar hyd top y seddau tuag at y pulpud gyda'r 'jerry can'
- Y ddau nôl i'r seddau a chreu symudiadau i gyfleu gweddio. Marc yn cario Eddie dros y sedd
- Ail greu'r un set o symudiadau nifer o weithiau nes bod Marc yn gorwedd ar hyd y sedd
- Eddie yn cerdded i'r pulpud ac fel petai'n cyflawni defod arbennig gan agor y defnydd sydd ar y pulpud a'i osod yn daclus. Gosod llythyr Lewis Valentine yn daclus ar y defnydd a 'Mawl yr Ifanc'. Eddie'n darllen rhan o'r llythyr. Dyma llythyr Lewis Valentine at aelodau o'i Gapel ar ôl iddo gyflawni'r weithred yn yr Ysgol Fomio
- Marc i'r pulpud at Eddie a'r ddau yn canu emyn Lewis Valentine 'Dros Gymru'n Gwlad'
- Marc yn codi'r defnydd gwyrdd a'i ddisgyn dros ymyl y pulpud. Y geiriau 'Dros Gymru'n gwlad' ar y defnydd
- Y ddau'n agor y bedyddfaen - tri chaead i gyd yn eu tro gyda'r geiriau 'Un Arglwydd', 'Un Ffydd', ac 'Un Bedydd' arnynt
- Marc yn sefyll ar ochr y bedyddfaen a dal y 'jerry can' yn ei ddwylo. Ei agor ac yn araf dywallt y dŵr i mewn i'r bedyddfaen
- Eddie yn mynd mewn i'r bedyddfaen a thynnu'r caead ar ei phen. Marc yn tynnu'r ail gaead i lawr, ac yna'r trydydd fel bo'r ddau wedi eu cau i mewn yn y bedyddfaen.

## Tasg 1

Ewch ati i wylïo'r clip *Y BROSES*, a gwnewch nodiadau ar beth mae'r ddau yn ei ddweud yw eu dull nhw o weithio a sut wnaethon nhw ddatblygu elfennau corfforol a'u defnydd o'r gofod ar gyfer eu dehongliad o'r digwyddiad 'Llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth.'

### Beth yw Theatr Gorfforol?

Mae Theatr Gorfforol yn fath o theatr sy'n rhoi pwyslais ar symud yn hytrach na deialog, mae'n ffurf lle mae'r dull o ddweud stori yn cael ei ddangos yn bennaf trwy ddefnyddio gwaith symud, meim a dawns.

Mae nifer o gwmnïau Theatr Gorfforol fel DV8 a Earth Fall yn deillio o gefndir dawns tra mae cwmnïau fel Volcano a Frantic Assembly yn dod o gefndir theatr ac felly yn defnyddio testun fel rhan bwysig o'u gwaith.

Yn syml, mae Theatr Gorfforol yn gosod y corff dynol yng nghanol y broses o adrodd stori.

Mae cwmni DV8 yn adnabyddus am ddefnyddio Theatr Gorfforol i ymchwilio i agweddau cymhleth ar gysylltiadau a pherthynas ddynol a materion cymdeithasol neu ddiwylliannol.

Mae Frantic Assembly yn adnabyddus am ddramâu fel *The Curious Incident of the Dog in the Night Time*, *Love Song*, *Beautiful Burnout* ac *Othello*. Mae Frantic Assembly yn gweithio'n agos iawn gyda'r testun ac yn credu'n gryf y dylai'r gwaith corfforol ddatblygu a symud y naratif ymlaen, nid cael ei roi i mewn yn unig i gyfleu elfennau o ddawns. Felly mae'r testun a'r gwaith corfforol yn mynd law yn llaw a'r naill a'r llall yn gwasanaethu ei gilydd.



## Y broses o greu Daeth Dydd Taro

### Y gofod

Y gofod sydd bob tro yn dechrau creu'r coreograffi. Rhaid i'r perfformiwr addasu ei gorff i'r gofod yn hytrach na gofodi'r gofod i addasu i'r perfformiwr.

Mae'n bwysig bod y perfformiwr yn dod i adnabod y gofod, e.e. rhaid dod i adnabod y capel a'r diwylliant sy'n rhan ohono. Mae yna ddefodau sy'n rhan o'r capel ac fe ddylid defnyddio'r defodau a'r traddodiadau hynny, ond wrth gwrs, gellir eu defnyddio mewn gwahanol ffurf. Mae cynulleidfa arferol yn eistedd yn dawel yn y corau/seddau mewn capel nid yn dringo drostynt! Mae angen felly i'r perfformiwr asio'r corff gyda gofynion defodol y lle. Mae angen i'r perfformiwr weithio gyda'r gofod a dod i adnabod y corau/seddau, y pulpud, y fedyddfan ac ati a gweld sut mae'r corff yn symud dros y seddau, yn symud yn y set fawr a'r pulpud. Mae hyn wrth gwrs, yn hollol wahanol i weithio ar lawr mewn stiwdio ddrama. Mae'r seddau, y pulpud, yr organ, y galeri neu'r gwrthrychau fel llyfrau emynau, y gwydrau cymun yn y capel yn gofodi'r perfformiwr i symud mewn ffordd arbennig ac mae angen trio pethau allan a chael y symudiadau i lifo. Rhaid mapio'r symudiadau a chreu haenau o waith wrth symud ymlaen.

Wrth ymarfer y gwaith dywed Eddie fod y gofod yn dweud wrthynt lle roeddynt yn mynd. Roedd taith y 'jerry can' er enghraifft, yn bwysig i'r stori ac felly roedd ganddo ei daith ei hun mewn ffordd o'r galeri yr holl ffordd lawr i'r bedyddfaen ac felly gellir dweud bod y 'jerry can' yn gyrru'r corff a'i symudiadau.

### Y gwaith symud

Wrth fynd ati i weithio ar 'Daeth Dydd Taro' eglura Eddie fod yn rhaid meddwl mewn delweddau a chreu lluniau a symudiadau corfforol sy'n cyfleu negeseuon fydd yn effeithio ar y glust a'r llygad a chadw hyn mewn cof drwy'r amser er mwyn creu gwaith diddorol i'r gynulleidfa.


Mae angen meddwl yn nhermau geiriau wrth greu gwaith symud - creu symudiadau **llyfn** sy'n **lifo**, ond mae angen newid tempo o dro i dro ac **aros** a **meddwl** er mwyn newid rhythm y coreograffi, arafu'r gwaith a chreu'r annisgwyl er mwyn cynnal diddordeb y gynulleidfa. Gellir creu patrymau ac ail adrodd ac mae hynny'n creu awyrgylch arbennig mewn perfformiad,

Gellir hefyd mynd ar ôl ystumiau arbennig sy'n perthyn i'r gofod neu'r adeilad. Mewn capel ceir ystumiau sy'n nodweddiadol o'r capel, er enghraifft, y modd yr ydym yn defnyddio'r corff i weddio, i sefyll yn y pulpud, i eistedd mewn tawelwch ac ati. Rydym yn creu ystyr gyda'r corff. Awgryma Eddie y dylem ddefnyddio'r hyn sy'n bodoli'n barod ac addasu ac ychwanegu atynt. Fe ddylem ddefnyddio'r offer sydd ar gael yn y gofod, llyfrau emynau, gwydrau'r cymun ayb. Mae'r offer hyn yn perthyn i ddiwylliant y capel ac i ddefodau arbennig a hanes crefydd a'r capel. Yr hyn sy'n bwysig yw defnyddio'r rhain yn y ffordd arferol maen nhw'n cael eu defnyddio ond hefyd meddwl am beth arall sy'n bosib i'w greu, pa ddelweddau sy'n bosib.

Fe ddylid cychwyn gyda'r cyfarwydd ag yna mynd ati i greu gwaith newydd a diddorol gyda'r corff o fewn y gofod. Enghraifft o hyn yw'r llyfrau emynau yn y pulpud. Y syniad y tu ôl i hun oedd creu rhyw fath o wal gyda'r llyfrau trwy eu gosod ar ben ei gilydd fel y byddai rhywun yn adeiladu brics i greu wal. Y syniad o adeiladu a dymchwel, diwylliant yn cael ei sarnu, popeth yn cael ei chwalu a'i ddiinstrio. Enghraifft dda arall oedd yr olygfa o gario'r Beiblau ar eu cefnau. Y syniad y tu ôl i hyn oedd bod pwysau'r ymgyrch yn eu gofidio ac felly roedd pwysau'r Beiblau ar eu cefnau yn llythrennol yn newid eu ffordd o symud a theimlo. Roedd y Beiblau yn dangos poen yr ymgyrch ac felly yn symbol o'r pwysau oedd arnynt. Roedd cario'r Beiblau hefyd yn effeithio'r ffordd yr oedd Eddie a Marc yn symud ac yn rhoi tensiwn diddorol i'r symudiadau ac yn effeithio ar y gynulleidfa. Roedd yn gorfodi'r gynulleidfa i ddechrau meddwl am ystyr ehangach i'r delweddau.

Gwrthrych pwysig yn y perfformiad oedd llythyr Lewis Valentine at ei dad a gafodd ei ddarllen gan Marc ar ddechrau'r perfformiad, roedd hyn yn gosod y cyd-destun fel petai ac yn dangos y pwysau oedd ar ysgwyddau Lewis Valentine fel gweinidog yr efengyl. Bydd y llythyr o'r pulpud yn nes at ddiwedd y perfformiad hefyd yn wrthrych holl bwysig gan mai llythyr Lewis Valentine i'w aelodau oedd o yn egluro'r hyn yr oedd wedi ei wneud. Efen hynod o effeithiol hefyd oedd y ddau yn canu emyn enwog Lewis Valentine o'r pulpud *Dros Gymru'n Gwlad*.

Gwrthrych nad oedd yn rhan o ddefod y Capel oedd y 'jerry can', ond wrth gwrs roedd hwn yn brif gymeriad i raddau yn stori'r ysgol fomio ac felly roedd gweld y 'jerry can' yn y capel yn creu diddordeb yn syth ac roedd gwyllo ei daith o'r galeri i lawr i'r bedyddfaen yn gyrru'r stori a'r symudiadau. Syniad diddorol dros ben wedyn oedd tywallt y dŵr o'r can i'r bedyddfaen ar ddiwedd y perfformiad. Roedd y dŵr hefyd yn creu sŵn diddorol wrth iddo gael ei gario ac roedd pwysau'r can oherwydd y dŵr yn ei wneud yn drwm felly roedd y ddau yn gorfod ei symud yn araf a gofalus. Rhaid felly addasu'r corff i'r pwysau hynny nes bod y symudiadau yn llifo.



Pwysleisia Eddie fod yn rhaid bod yn ymwybodol o newid y symudiadau yn gyson o'r llorweddol i'r fertigol a newid rhythm y symudiadau. Bydd hyn yn ychwanegu haenau drwy'r amser i'r symudiadau.

## Y gynulleidfa

Mae'n holl bwysig mewn unrhyw waith theatr i gofio am y gynulleidfa. Rhaid i'r perfformiwr benderfynu pa fath o effaith mae am ei gael ar ei gynulleidfa. Sut mae am i'r gynulleidfa deimlo ac ymateb? Lle dylid gosod y gynulleidfa, a oes angen iddynt symud o amgylch y gofod er mwyn gweld? Sut bydd y gynulleidfa yn ymateb i'r gofod a'r corff sy'n symud yn y gofod?


Bydd y gynulleidfa hefyd yn dod â phob math o wybodaeth gyda nhw i'r perfformiad a phobl yn gweld a dehongli gwahanol bethau, ond yr hyn sy'n bwysig yw bod delweddau yn cael eu creu er mwyn ysgogi dychymyg y gynulleidfa.

Dylid ffilmio'r gwaith dyfeisio wrth ei greu ac yna ail edrych arno gyda llygaid newydd er mwyn gweld beth sy'n gweithio a sut y gellir datblygu rhannau ymhellach. Rhaid sbarduno'r gynulleidfa, apelio at eu dychymyg, eu synhwyrau, y llygad a'r glust.

### Elfennau technegol

Gall elfennau technegol fel sain ychwanegu cymaint i'r perfformiad. Defnyddiodd Eddie a Marc y syniad o'r drôn o'r organ er mwyn creu'r teimlad o wewyr ac o'r herwydd yn dylanwadu ar y ffordd roedd y ddau yn symud.

Mae defnyddio sain yn gallu ychwanegu naws ac awyrgylch arbennig i symudiadau, felly mae'n bwysig arbrofi gyda seiniau a cherddoriaeth wahanol.



## Tasg 2

Yn dilyn gwyllo'r ffilm *Daeth Dydd Taro - Y Broses* ewch ati wedyn i wyllo y darn o ffilm *Daeth Dydd Taro - Y Perfformiad*.

### Testun ac Ymchwil Hanesyddol i Greu Gwaith Dyfeisio Theatr Gorfforol Ddiddorol.

Ewch ati i ddewis un o'r digwyddiadau sydd ar y rhestr isod ac ewch ati i wneud gwaith ymchwil ar y digwyddiad. Casglwch bob math o waith ymchwil o'r llyfrgell, erthyglau papur newydd, lluniau, barddoniaeth, gwybodaeth o'r we ac ati.

Casglwch arteffactau megis:

- Llythyrau o'r cyfnod
- Erthyglau papur newydd
- Lluniau
- Gwrthrychau
- Bwletinau newyddion

Digwyddiadau hanesyddol posib:

Dyma restr o straeon hanesyddol y gellid eu defnyddio mewn gwaith dyfeisio ar thema. Mae gan y rhain i gyd gysylltiad â Chymru.

- Tryweryn
- Meibion Glyndŵr
- Pleidlais 1979
- Ysgol Fomio
- Gresffordd
- Senghennydd
- Frongoch
- Teulu Abram Wood
- Yr Urdd 1922
- Hedd Wyn
- Eisteddfod Genedlaethol
- Welsh Not
- Rhyfel y degwm
- Streic y chwarelwyr 1906
- Penderyn
- Y siartwyr
- Crochendy Nantgarw
- Llanofer
- Owain Glyndŵr a Rhuthun
- Iolo Morgannwg yn Llundain
- Ifaciwis
- Rhyfel Cartref Sbaen
- Operation Julie
- Streic y glowyr 1984-85
- Patagonia
- Cymry a aeth i America

Dechreuwch feddwl am **leoliad** neu **ofod** sy'n berthnasol i'r digwyddiad. Fe allai hanes Tryweryn er enghraifft ddigwydd mewn capel sef y Capel yng Nghwm Celyn. Gallai stori Aberfan ddigwydd mewn ystafell ddosbarth mewn ysgol gynradd. Gellir creu gwersyll er mwyn cyfleu Comin Greenham ac ati.

Meddyliwch am **wrthrychau** sy'n gwbl berthnasol i'r digwyddiad. A fydd y gwrthrych yn gyrru'r digwyddiadau fel y 'jerry can' yn *Daeth Dydd Taro*.

Beth er enghraifft oedd y gwrthrychau pwysig yn stori Aberfan? - y cloc, desgiau'r ysgol, tegan plentyn, darnau o rwbel.



Gallai gwrthrychau Tryweryn fod yn llyfrau ysgol y plant, carreg fedd, y cymun olaf, hetiau caled y gweithwyr, offer palu'r tir ayb.

Dilynwch y ffordd y gweithiodd Eddie a Marc gan fapio'r stori o fewn y lleoliad. Cofiwch ddefnyddio deialog bob hyn a hyn i greu golygfeydd, neu fonologau, llythyrau pwysig ac ati gan fod disgwyl i'ch gwaith arholiad fod yn cynnwys elfennau o ddeialog.

Edrychwch ar waith Frantic Assembly er mwyn gweld sut maen nhw'n ymgorffori gwaith corfforol i mewn i destun, mae'r gwaith corfforol yn tyfu yn naturiol allan o'r testun ac yn cyfoethogi y digwydd drwy ei symud i dir lle mae'r gweledol yn cyfoethogi'r clywedol.



Terminoleg:

### **Gwrthrych**

unrhyw beth y mae modd ei weld neu ei gyffwrdd

### **Gofod**

lle gwag at bwrpas arbennig (*space*)

### **Lleoliad**

man penodol lle y ceir rhywun neu rywbeth (*location*)

Gwefannau defnyddiol:

[www.franticassembly.co.uk](http://www.franticassembly.co.uk)

[www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/diwydiant/aberfan](http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/diwydiant/aberfan)

[www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/digwyddiadau/tryweryn](http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/digwyddiadau/tryweryn)

Clipiau:

### **Y Broses**

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Creu%20Theatr%20Gorfforol%205kbps.mp4>

### **Perfformiad**

<http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/Theatr%20Gorfforol/Daeth%20Dydd%20Taro.mov>